

Llangennech

- 1 Wrth i'r daith nesáu at ddarn uchaf Coedwig Troserch chwiliwch am y castanwydd melys achlysurol ar hyd y llwybr, gyda'u dail hir, cul a phlogog. Gellir bwyta'r enau ar ôl rhew cynta'r gaeaf. Roedd y Rhufeiniaid yn eu defnyddio i wneud blawd ond erbyn heddiw fe'u defnyddir yn bennaf ar gyfer eu rhostio.
- 2 Mae gan Goedwig Troserch gyfuniad o goed bythwyrdd a llydanddail. Mae gan y naill a'r llall llystyfiant tra gwahanol.
- 3 Mae coed collddail yn diosg eu dail yn y gaeaf, gan adael goleuni i mewn i'r goedwig. Ar ddechrau'r gwanwyn mae'r to agored yn caniatáu i blanhigion blodeuo cynnar greu sbloet o liw. Mae Suran y Coed yn un o'r planhigion blodeuo cynnar. Mae ganddo ddail siâp meillion a blodau gwyn hyfryd tebyg i sêr.
- 4 Mae coedwigoedd coniferaidd a'u coed bythwyrdd ar y llaw arall yn taflu cysgod tywyll trwy gydol y flwyddyn; mae hyn yn ffafrio planhigion sy'n gallu goddef amgylchiadau llai fel rhedyn, mwsogl a ffynghau. Fe welwch ddigonedd o Marchredynen Euraidd, sy'n amlwg oherwydd y cen eurfrown niferus sy'n rhedeg ar hyd ddail y coesyn.
- 5 Heddiw gellir gweld siaffiau a thipiau pyllau glo cynnar yma a thraw yn yr ardal, olion o ddiwydiant glo a fu unwaith mor ffyniannus. Mae'r siaffiau yma'n rhan o hen llofa'r Goitre-wen.
- 6 Mae gweddillion melin yd Troserch i'w gweld hyd y dydd heddiw. Mae'r cafn a ddefnyddiwyd i sianelu'r dŵr i yrru'r felin hefyd i'w weld. Mae hon yn un o nifer o felinau gwlln ac yd a fu'n gwasanaethu'r ardal ar wahanol adegau.
- 7 Ar hyd glannau cysgodol yr Afon Morlais un o'r planhigion mwyaf amlwg yw'r Frwynen Fawr. Mae cymeriad addurniadol y planhigyn hwn wedi'i wneud yn boblogaidd iawn mewn gerddi. Gellir ei adnabod trwy ei daswau trwchus, a'i ddail llachar, miniog, gydag ymylon gwalltog gwyn. Mae'r blodau'n gastanwydd-frown.
- 8 Mae'r hen goed clawdd ar naill ochr y lôn isel yn cynnwys Celyn, coed Cyll a'r Ffawyddden. Mae cloddiau'n gynefin pwysig. Maent nid yn unig yn cynnig llwybr ar gyfer bywyd gwyllt i deithio ar ei hyd ond maent hefyd yn cynnig bwyd, cysgod a chartref i greaduriaid o bob math. Yn y gwanwyn chwiliwch am Fillyw Llygad Ebrill, a'u pennau melyn, llachar a'u dail siâp calon. Blodyn cyffredin arall yn y cloddiau yw'r Gludlys Coch, y gellir ei adnabod gan ei betalau pinc disglair. Yn ystod gaeafau mwyn bydd yn ei flodau o ddechrau'r haf i fis Rhagfyr.
- 9 Bu'r ardal hon, sydd erbyn hyn yn dir amaethyddol, unwaith yn amgylchynu Parc Llangennech. Mae gweddillion y waliau cerrig trwsiadus a'r cloddiau coed yn dwyn atgofion o ddyddiau gynt.
- 10 Mae Eglwys Sant Gwynog, Llangennech, wedi'i chysegru i sant Celtaidd, sy'n awgrymu y gallai fod yn addoldy cyn-Normanaid. Efallai mai crwn oedd siâp gwreiddiol y fynwent, ac fe fyddai hynny hefyd yn awgrymu y sefydlwyd y safle yn gynharach na chapeli anghydfurfiol y fro, a godwyd gryn amser wedi hynny.
- 11 Mae'r llwybr sydd yn cysylltu Llangennech â Pharc y Mileniwm yn Llanelli yn mynd trwy ardal hynod ei hanes. Trwy archwilio'r haenau mawn ar hyd glannau afon Lluchwr, mae'r arbenigwyr wedi dod o hyd i dystiolaeth sy'n dangos bod iyrchod yn byw yn yr ardal 10,000 o flynyddoedd yn ôl. Mae'r llwybr yn croesi Nant Mwrwg, ac yn dilyn cwrs y nant hon y mae'r hen dramffordd rhwng Llangennech a hen waith glo St David's, a agorwyd gan Gwmni Glo Llangennech yn yr 1830au. Ymbellach i'r de yng nghyffiniau Bynea, mae'r llwybr yn mynd heibio i nifer o hen lofeydd, gan gynnwys Pwll Genwen, lle saif hyd heddiw enghraifft ragorol o dŷ injin weindio o'r 19eg ganrif. Mae Caer Rufeinig yng Nghasluchwr, ac mae'n bosibl fod rhyd wedi bod yn y cyffiniau yn oes y Rhufeiniaid. Mae'n bosibl, hefyd, fod Ffordd Rufeinig nad yw wedi ei darganfod hyd yn hyn, yn mynd o Gaslluchwr tuag at Lanelli.



Y Peunog Peacock Butterfly



Coedfrwynen Fawr Greater Woodrush



Marchredynen Euraidd Male Scaly Fern

- 1 As the walk comes to the top section of Troserch Wood look for the occasional Sweet Chestnut tree alongside the path, with long narrow jagged edged leaves. The nuts are edible after the first frosts. They were used by the Romans to make flour but today are more commonly used for roasting.
- 2 Troserch Wood has a combination of evergreen and broadleaf trees. Each has a markedly different ground flora.
- 3 Deciduous trees shed their leaves in winter, allowing light into the wood. In early spring the open canopy allows early flowering plants to give a blaze of colour. Wood Sorrel is one of the early flowering plants. It has shamrock-shaped leaves and beautiful star-like white flowers.
- 4 Coniferous woods with their evergreen trees cast a deep shade all year round; this favours plants that can tolerate shady damp conditions such as ferns, mosses, and fungi. You will see Male Scaly Ferns growing in abundance, identified by the numerous golden-brown scales running the length of the frond stem.
- 5 Today small shafts and tips of early coal-mines can still be found dotted around the local landscape, remnants of the coal industry that once thrived. These shafts are part of the old Goitre-wen colliery.
- 6 The remains of the Troserch corn mill can still be seen today. The leat that used to channel the water to power the mill can also still be identified. This is one of a number of woollen and corn mills known to have served the district.
- 7 Along the shady streamside of the Afon Morlais one of the most noticeable plants is Greater Wood Rush. The ornamental nature of this plant has made it popular in gardens. Identify it from its dense tussocks, with blade-like glossy leaves, fringed with whitish hairs. The flowers are chestnut-brown.
- 8 The old hedgerow trees lining either side of the sunken lane include Holly, Hazel, and Beech. Hedgerows are an important habitat. Not only do they provide a corridor for wildlife to travel along but they also provide food, shelter and a home to a variety of animal life. In spring look for Lesser Celandines with their glossy yellow flower heads and heart-shaped leaves. Another common flower in the hedgerow is Red Campion, recognised by its bright rose-pink petals. In mild winters it has a long flowering season, from early summer through to December.
- 9 This area, now farmland, was once the surrounding ground of Llangennech Park. The remains of dressed stone walls and tree copse give a feeling of times gone by.
- 10 St. Gwynog's Church, Llangennech, is dedicated to a Celtic saint, which suggests this to be a pre-Norman place of worship. The graveyard may originally have been circular, which would also suggest an early date for the foundation of the site, unlike the non-conformist chapels of the area, which were built much later.
- 11 The path that links Llangennech to the Millennium Coastal Park at Llanelli runs through an historic area. Prehistoric peat deposits along the banks of the Loughor have yielded evidence that show that roe deer lived in the area 10,000 years ago. The path crosses the Nant Mwrwg stream, the course of which is followed by an old tramway that connected Llangennech with the old St David's Colliery to the east, opened by the Llangennech Coal Company in the 1830s. Further south to Bynea, the path passes several old collieries, including the Genwen Pit, where a superb example of a nineteenth century colliery engine house still stands. There is a Roman Fort at Loughor and the river must have been forded in Roman times. There may well be an undiscovered Roman Road running from Loughor towards Llanelli.